Cabinet Office

# Cod Ymarfer Cosbau Sifil Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus

Swyddfa'r Cabinet

# Cod Ymarfer Cosbau Sifil Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 63 o Ddeddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) 2025

Mehefin 2026

© Hawlfraint y Goron **2026**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom drwy www.gov.uk/guidance/contact-the-cabinet-office

ISBN

978-1-5286-6546-9

E03613722 05/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Swyddfa'r Cabinet ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhy

# Mynegai


**Ymwadiad**

**1. Cyflwyniad......1**

1.1 Ynglŷn â'r cod hwn......1

**2. Hawliau Gweithdrefnol......2**

2.1 Hawliau Gweithdrefnol......2

**3. Goruchwyliaeth......2**

3.1 Swyddogaeth Goruchwylio......2

**4. Cwmpas......4**

4.1 Cwmpas tiriogaethol......4

4.2 Pwy sydd o fewn cwmpas y cosbau......4

4.3 Troseddau y gellir rhoi cosbau amdanynt......4

4.4 Gwahaniaethu rhwng twyll a gwall......5

4.5 Categorïau o gosbau y gellir eu rhoi......6

4.6 Cymhwyso cosbau ag effaith ôl-weithredol......6

**5. Swyddogion Awdurdodedig......6**

5.1 Swyddogion Awdurdodedig......6

5.2 Uwch Swyddogion Awdurdodedig......7

5.3 Datblygiad Proffesiynol......7

5.4 Pan atgyfeirir achos at y PSFA......8

5.5 Sut y bydd bregusrwydd yn cael ei asesu?......9

5.6 Bregusrwydd mewn cyfweleion......10

**6. Pwerau Gwybodaeth......11**

**7. Cosbau am Dwyll......11**

7.1 Penderfynu a yw achos yn bodloni'r safon prawf sifil......11

7.2 Sefydlu'r golled neu'r budd......12

7.3 Sut y cyfrifir lefelau cosbau twyll......13

7.4 Hysbysiadau o fwriad......16

**8. Sylwadau ar gyfer cosbau sifil twyll......16**

8.1 Hawliau gweithdrefnol......16

8.2 Cyfnodau amser ar gyfer sylwadau......19

8.3 Hysbysiadau penderfyniad cosb......19

**9. Adolygiadau Mewnol o benderfyniadau cosb sifil twyll......20**

9.1 Proses......20

9.2 Sut y cynhelir adolygiadau mewnol......21

**10. Apeliadau am Gosbau Twyll......21**

10.1 Sut i apelio yn erbyn hysbysiad cosb......21

**11. Pryd na ellir cymhwyso cosbau am dwyll......22**

11.1 Proses......22

**12. Gostwng y Gosb......23**

12.1 Sut y bydd gostyngiadau cosbau yn cael eu cymhwyso......23

**13. Cosbau am ddiffyg cydymffurfio......24**

13.1 Pryd y bydd cosbau am ddiffyg cydymffurfio yn cael eu cymhwyso......24

13.2 Hawliau Gweithdrefnol......24

13.3 Cyfrifo a chymhwyso llog i gosbau sifil......24

13.4 Sut y byddwn yn cysylltu ag unigolion neu sefydliadau os byddwn yn rhoi cosb.............................. 25
**14. Beth os yw unigolyn neu sefydliad yn credu bod gwall neu gamgymeriad...................................... 26**
14.1 Mesurau diogelu........................................................................................................................ 26
14.2 Data - Sut i wneud cwyn.............................................................................................................26
**15. Talu cosbau.................................................................................................................................27**
15.1 Sut i dalu cosb............................................................................................................................ 27
15.2 Talu costau adenilladwy a dynnwyd........................................................................................... 27
**16. Cosbau heb eu talu..................................................................................................................... 27**
16.1 Cyfnodau Talu.............................................................................................................................27
16.2 Sut y bydd dyledion cosb sifil yn cael eu hadennill.......................................................................28
16.3 Costau Ychwanegol.....................................................................................................................29
**17. Rheoli gordaliadau...................................................................................................................... 29**
17.1 Gordaliadau................................................................................................................................ 29
**18. Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion................................................................................................29**
18.1 Sut y bydd data yn cael eu prosesu............................................................................................ 29
18.2 Cwynion......................................................................................................................................30
**19. Rhestr Termau.......................................................................................................................... 31**

# Ymwadiad

Canllawiau cyffredinol yn unig y mae'r Cod Ymarfer hwn yn eu rhoi ac ni ddylid ei ystyried yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Os nad ydych chi'n deall unrhyw ran o gynnwys y Cod, y gyfraith, neu unrhyw rwymedigaethau neu gyfrifoldebau a allai fod gennych, dylech chi geisio cyngor annibynnol.

Mae'r gyfundrefn gosbau sifil a lywodraethir gan y Cod Ymarfer hwn wedi'i chynllunio'n benodol i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998, gyda ffocws penodol ar Erthygl 6 o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (yr hawl i gael treial teg). Gan fod gosod cosb sifil yn gyfystyr â sancsiwn ariannol, mae'n rhaid i bob Swyddog Awdurdodedig sicrhau bod ymchwiliadau, penderfyniadau ynghylch euogrwydd, a chyfrifiadau cosbau yn gymesur, yn dryloyw, ac yn deg yn weithdrefnol. Mae'r mesurau diogelwch statudol y manylir arnynt drwy gydol y Cod hwn, yn benodol hawl y gwrthrych i dderbyn rhybudd clir, y cyfle i wneud sylwadau ffurfiol, y ddarpariaeth ar gyfer adolygiad mewnol gan Uwch Swyddog Awdurdodedig, a'r hawl eithaf i apelio i dribiwnlys annibynnol — yn ffurfio'r fframwaith gweithredol sy'n gwarantu bod hawl pob gwrthrych i wrandawiad teg a diduedd yn cael ei chynnal yn llym.

© Hawlfraint y Goron **2026**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Ynglŷn â'r cod hwn

- Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn (‘CoP’ neu ‘Cod’) **yn dilyn Cydsyniad Brenhinol Deddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) 2025**(“y Ddeddf”) sy’n cyflwyno cyfundrefn gosbau sifil newydd am dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus.

- Mae'r Cod hwn yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd y pwerau cosbau sifil yn y Ddeddf yn cael eu defnyddio. Mae'r Cod hwn yn egluro sut y bydd Swyddogion Awdurdodedig Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu pwerau i roi cosbau sifil.

- **Mae Adran 51** y Ddeddf yn caniatáu i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet (“y Gweinidog”) osod cosbau ar berson os yw'n fodlon, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod y person wedi cyflawni, neu wedi cynllwynio i gyflawni, twyll er mwyn:

    - derbyn neu helpu person arall i dderbyn taliad sy'n swm y gellir ei adennill, neu a fyddai wedi bod yn swm y gellir ei adennill pe na fyddai'r taliad wedi'i wneud
    - neu gyda'r canlyniad bod gan awdurdod cyhoeddus hawl i hawlio unrhyw swm arall y gellir ei adennill.

- **Mae Adran 51** y Ddeddf yn caniatáu i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet osod cosbau ar berson os yw'n fodlon, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod y person wedi:

    - heb esgus rhesymol, methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd o dan Bennod 2 (Pwerau ymchwilio) neu Bennod 4 (Dulliau adennill) yn y Ddeddf.

- **Mae Adran 63** y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet gyhoeddi Cod ynghylch:

    - gweinyddu cosbau, gan gynnwys sut y gwneir penderfyniadau i roi cosbau;
    - sut y pennir symiau cosbau;
    - amgylchiadau lle mae'r Gweinidog yn ystyried, ac i ba raddau, y byddai'n briodol disgowntio swm cosb o ganlyniad i ymddygiad cydweithredol gan y person y gosodir y gosb arno.

- Mae'r Cod hwn yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio a chymhwyso pwerau rhannu a chasglu gwybodaeth a phwerau adennill dyledion fel y nodir yn y Ddeddf i'r graddau y mae'n berthnasol i ddefnyddio a gosod cosbau. Bydd gwybodaeth ychwanegol am y pwerau hyn yn cael ei hamlinellu mewn canllawiau a gyhoeddir ar wahân.

# 2. Hawliau Gweithdrefnol

## 2.1 Hawliau Gweithdrefnol

- Mae'r Ddeddf yn amlinellu hawliau gweithdrefnol unigolyn neu sefydliad y gosodir cosb arno. Hawliau haenog yw'r rhain, sy'n golygu bod rhaid eu cyrchu mewn trefn benodol, fel yr amlinellir isod. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:
    - wneud sylwadau (gweler adran 9 y Cod hwn).
    - gofyn am adolygiad mewnol (gweler adran 10 y Cod hwn).
    - apelio (gweler adran 11 y Cod hwn).
    - gofyn am estyniad i'r dyddiad cau penodedig ar gyfer cyflwyno apêl (gweler adran 11 y Cod hwn)

# 3. Goruchwyliaeth

## 3.1 Swyddogaeth Goruchwylio

- Er mwyn sicrhau bod pwerau o fewn y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ôl y bwriad, **mae adran 65** y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Berson Annibynnol gael ei benodi i gynnal adolygiadau o sut y cânt eu harfer.

- Mae'r PSFA wedi creu'r rôl **Adolygydd Annibynnol Gorfodi PSFA** i gyflawni'r rhwymedigaeth statudol hon. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adolygydd Annibynnol greu adroddiadau ar ganfyddiadau eu hadolygiadau, gan gynnwys unrhyw argymhellion cysylltiedig ar gyfer gwella, a'u cyhoeddi i'r Gweinidog. Yna mae'n rhaid i'r Gweinidog gyflwyno'r adroddiadau gerbron y Senedd.

- Bydd canllawiau ychwanegol yn amlinellu rhagor o fanylion am yr Adolygydd Annibynnol a sut y bydd yn cael ei gefnogi gan y PSFA.

- Bydd canllawiau ychwanegol hefyd yn amlinellu'r oruchwyliaeth annibynnol ychwanegol a ddarperir gan Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS).

# 4. Cwmpas

## 4.1 Cwmpas tiriogaethol

- Mae Rhan 1 y Ddeddf yn ymestyn i Gymru a Lloegr.

## 4.2 Pwy sydd o fewn cwmpas y cosbau

- Gellir rhoi cosbau sifil am unrhyw drosedd o dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus sy'n bodloni'r safon prawf sifil. Gallai hyn arwain at gosbau i unigolion yn ogystal â sefydliadau sydd â hunaniaeth gyfreithiol ar wahân, fel busnesau, partneriaethau, elusennau, a chymdeithasau eraill.

- Ni chaniateir rhoi mwy nag un gosb i unigolion a chyrff corfforaethol am yr un drosedd. Lle gall cyfarwyddwr neu swyddog arall mewn cwmni neu gorff arall gael ei adnabod (yn ôl yr hyn sy'n debygol) yn gyfrifol am drosedd y mae'r cwmni ac ati wedi'i chyflawni, yna gellir cosbi'r swyddog yn ogystal â'r cwmni, neu yn ei le.

**Ymdrin â phobl ifanc a phartïon gwarchodedig**

- Fel y nodir yn y canllawiau gan Wasanaeth Erlyn y Goron, mae diffiniad unigolyn yn cynnwys pobl o dan 18 oed ond dros oedran cyfrifoldeb sifil a throseddol. Yng nghyd-destun y Cod hwn, gellir rhoi cosb sifil iddynt os ydynt yn cyflawni trosedd o dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus. Hefyd wedi'u cynnwys mae 'partïon gwarchodedig', sy'n golygu rhywun sydd heb y gallu i gynnal achos cyfreithiol ei hun. Mae rheolau arbennig mewn achosion sifil i sicrhau bod pobl o dan 18 oed a phartïon gwarchodedig yn cael eu trin yn briodol.

- Bydd y PSFA yn sicrhau ei fod yn dilyn yr holl reolau priodol wrth ddelio â phobl ifanc a phartïon gwarchodedig, yn gyffredin ag arfer ar draws y llywodraeth.

## 4.3 Troseddau y gellir rhoi cosbau amdanynt

- Mae Adran 74 yn diffinio “twyll” at ddibenion Rhan 1 y Ddeddf. Mae’r diffiniad yn cwmpasu:

    y troseddau yn adrannau **1** ac **11** o **Ddeddf Twyll 2006** (twyll a chael gwasanaethau'n anonest)

    y troseddau yn adrannau **6** a **7** o **Ddeddf Twyll 2006** (meddu ar, gwneud neu gyflenwi erthyglau i'w defnyddio mewn twyll)

y drosedd o dan gyfraith gyffredin o gynllwynio i dwyllo.

- Pan gyflawnir unrhyw un o'r troseddau hyn yn erbyn awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru a Lloegr, a gellir ei phrofi i'r safon sifil, gellir cosbi'r drosedd â chosb sifil.
- Ar gyfer troseddau adran 6 a 7, nad oes ganddynt werth ariannol ynddynt eu hunain y gellir ei ddefnyddio i gyfrifo cosb, y gwerth fydd gwerth unrhyw drosedd o dwyll sy'n digwydd o ganlyniad i gyflawni'r troseddau adran 6 neu 7, naill ai gan y person neu gan rywun arall.
- Ar gyfer y drosedd cynllwynio, gellir gosod cosb ar unrhyw un neu bob person sy'n rhan o'r cynllwyn. Gall cosbau fod ar wahanol lefelau ar gyfer pob unigolyn yn dibynnu ar ffeithiau'r achos fel y maent yn berthnasol i'r unigolyn.
- Nid oes angen i'r twyll fod wedi bod yn llwyddiannus er mwyn i drosedd gael ei chyflawni neu i gosb sifil gael ei gosod. Mae'n ddigon bod y person neu'r personau wedi cyflawni gweithred euog gan fwriadu y byddai'n llwyddiannus (**gweler adran 51 y Ddeddf)**. Mewn achosion o'r fath, gellir gosod cosb drwy gyfeirio at y swm a fyddai wedi cael ei dwyllo. Gellir amcangyfrif y swm hwn.

# 4.4 Gwahaniaethu rhwng twyll a gwall

- Er mwyn i weithred fod yn dwyll, mae angen rhywfaint o anonestrwydd fel bod yr anwiredd, yr hepgoriad neu'r camddefnydd o swydd yn cael ei wneud yn fwriadol a chyda'r bwriad o dwyllo awdurdod cyhoeddus perthnasol. Gellir honni bod twyll wedi digwydd i'r safon sifil 'yn ôl yr hyn sy'n debygol'. Dyma'r safon prawf y mae'n rhaid ei bodloni er mwyn ystyried rhoi cosb sifil.
- Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn gwahaniaethu rhwng twyll a chamgymeriad:

**Mae gwall** yn digwydd pan ddarperir gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, neu pan wneir prosesu anghywir o wybodaeth sydd â chanlyniad perthnasol, fel talu'r swm anghywir, ond lle nad oes awgrym o fwriad twyllodrus.

**Mae gwall swyddogol** yn digwydd lle mae'r wybodaeth gywir wedi'i darparu gan yr unigolyn ond bod yr wybodaeth hon wedi cael ei phrosesu'n anghywir gan swyddog.

**Mae gwall unigol** yn digwydd lle mae unigolyn wedi darparu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn ond nad oes unrhyw awgrym o fwriad twyllodrus.

## 4.5 Categorïau o gosbau y gellir eu rhoi

- **Mae Adran 51** y Ddeddf yn caniatáu i Weinidog Swyddfa'r Cabinet osod cosbau ar berson os yw'n fodlon, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod y person wedi cyflawni, neu wedi cynllwynio i gyflawni, twyll er mwyn:

  derbyn neu helpu person arall i dderbyn taliad sy'n swm y gellir ei adennill neu, pe na fyddai'r taliad wedi'i wneud, a fyddai wedi bod yn swm y gellir ei adennill; neu

  gyda'r canlyniad bod gan awdurdod cyhoeddus hawl i hawlio unrhyw swm arall y gellir ei adennill.

- Gellir rhoi cosbau ar wahân (Adran 54) am beidio â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan:

  Pennod 2 (Pwerau ymchwilio) neu

  Er enghraifft, gellir rhoi cosb am beidio â darparu gwybodaeth neu am fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth.

  Pennod 4 (Dulliau adennill)

  Er enghraifft, gellir rhoi cosb i gyflogwr os na fydd yn cydymffurfio â gorchymyn didynnu o enillion neu i fanc os na fydd yn cydymffurfio â gorchymyn didynnu uniongyrchol.

## 4.6 Cymhwyso cosbau ag effaith ôl-weithredol

- Gellir rhoi cosbau sifil am weithredoedd o dwyll a ddigwyddodd cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym ond a oedd yn drosedd yn groes i Ddeddf Twyll 2006, neu'r drosedd cyfraith gyffredin o gynllwynio i dwyllo, ar adeg yr ymddygiad. Darperir rhagor o fanylion yn Adran 99 y Ddeddf.

# 5. Swyddogion Awdurdodedig

## 5.1 Swyddogion Awdurdodedig

- Swyddogion Awdurdodedig yw unigolion dynodedig o fewn y PSFA sy'n gallu gweithredu'r pwerau a roddir iddynt o fewn y Ddeddf hon. O dan **adran 66** maent wedi'u hawdurdodi gan y Gweinidog i:

  benderfynu rhoi hysbysiad o fwriad o dan adran 57(2)

penderfynu gosod cosb o dan adran 51 neu 60 (a rhoi hysbysiad at y diben hwnnw o dan adran 60).

## 5.2 Uwch Swyddogion Awdurdodedig

- Pan ofynnir am adolygiad mewnol o benderfyniad Swyddog Awdurdodedig (**gweler adran 9** o'r Cod hwn), bydd hyn yn cael ei gynnal gan Uwch Swyddog Awdurdodedig (swyddog o radd uwch na'r Swyddog a osododd y gosb). Maent yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r penderfyniad i roi hysbysiad o fwriad (adran 57(2)) neu i osod cosb sifil (adrannau 51 neu 54), gan gynnwys y swm. Bydd Uwch Swyddogion Awdurdodedig yn adolygu trwy wirio bod y penderfyniad wedi'i wneud a'i weithredu'n gywir, yn unol â'r gyfraith, a'i fod yn benderfyniad rhesymol a chymesur.

- Gallai'r Uwch Swyddog Awdurdodedig:
    - gynnal y penderfyniad i osod y gosb a swm y gosb;
    - cynnal y penderfyniad i osod y gosb ond newid ei swm; neu
    - canslo'r penderfyniad i osod cosb.

- Bydd y penderfyniad yn cael ei gyfleu i'r unigolyn yn ysgrifenedig.

- Darperir sicrwydd o'r swyddogaeth hon gan yr **Adolygydd Annibynnol o Orfodi PSFA** (**gweler adrannau 64 a 65** y Ddeddf). Darperir rhagor o wybodaeth am y rôl hon mewn canllawiau ychwanegol, ar wahân.

## 5.3 Datblygiad Proffesiynol

- Mae'n ofynnol i Swyddogion Awdurdodedig ymgymryd â hyfforddiant gwrth-dwyll perthnasol a chael y cymwysterau perthnasol i ddod yn aelodau o Broffesiwn Gwrth-dwyll y Llywodraeth (GCFP). Bydd gofyn i Swyddogion Awdurdodedig ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a chael eu dal i safon foesegol gyffredin er mwyn cynnal aelodaeth.

- Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hyfforddiant ar sut i:

  asesu a gosod cosb sifil yn rhesymol ac yn gymesur; amddiffyn

  hawliau unrhyw un y gosodir cosb arno; sicrhau bod pobl agored i

  niwed yn cael eu trin yn deg; a

  defnyddio'r pwerau adennill dyledion.

- Sylwch: ni fydd yr hyfforddiant uchod o reidrwydd yn cael ei gyflwyno drwy'r GCFP.

- Trwy fod yn aelod, bydd gan Swyddogion Awdurdodedig fynediad ehangach at gyfleoedd dysgu a datblygu, a byddant yn gallu cymryd arfer gorau gan arbenigwyr ar draws y gymuned gwrth-dwyll. Gallwch ddarllen rhagor am Broffesiwn Gwrth-dwyll y Llywodraeth yma.

## 5.4 Pan atgyfeirir achos at y PSFA

- Mae'r PSFA yn gweithredu ar gais awdurdodau cyhoeddus eraill drwy atgyfeiriadau. Gall awdurdod cyhoeddus atgyfeirio honiadau neu amheuon o dwyll at y PSFA ar unrhyw gam.

- Nid yw'n ofynnol i'r PSFA fabwysiadu pob achos. Bydd pob atgyfeiriad yn mynd trwy broses fabwysiadu achosion safonol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel offeryn cymorth i lywio penderfyniadau ynghylch a ddylid ymchwilio neu gymryd camau gorfodi neu adennill yn yr achos.

- Mae ffactorau y bydd y PSFA fel arfer yn eu hystyried wrth fabwysiadu achos posibl yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

    **y gwasanaeth sydd ei angen**, gan gynnwys adolygiad o berthnasedd i fandad ac awdurdodaeth y PSFA;

    effaith ariannol, cymhlethdod yr achos, potensial i adennill asedau, ac asesiad cychwynnol o debygolrwydd canlyniad llwyddiannus;

    effaith ar **ymddiriedaeth y cyhoedd**, **amlder a lledaeniad** y twyll posibl, pa mor **newydd** mae'r mecanwaith twyll, **proffil** y twyllwr (os yw'n hysbys), **y gallu i dyfu'n gyflym**, addasrwydd yr Uned Orfodi i fabwysiadu'r achos, **atal niwed ychwanegol**, cyfraniad at bortffolio cytbwys o achosion, ac unrhyw ffactorau neu ystyriaethau perthnasol eraill.

- Bydd y PSFA hefyd yn cynnal:

    **Asesiad bregusrwydd,** i asesu a yw pobl fregus yn rhan o'r achos, a sut y gallent gael eu heffeithio gan gamau a gymerir gan y PSFA yn ystod ymchwilio, gorfodi ac adennill dyledion.

    **Asesiad risg,** i nodi risgiau neu heriau a allai effeithio ar y broses ymchwilio neu orfodi.

    **Asesiad budd y cyhoedd,** i benderfynu a yw er budd y cyhoedd i fwrw ymlaen ag achos. Nid oes diffiniad safonol o 'budd y cyhoedd' a gall yr ystyriaeth hon fod yn wahanol ym mhob achos.

- Fel arfer, bydd y PSFA yn ceisio penderfynu a ddylid mabwysiadu achos o fewn 28 diwrnod. Os na chaiff achos ei fabwysiadu, gallai

camau gweithredu amgen gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

Argymhellion ar gyfer **camau gweithredu mewnol** y gall yr adran sy'n atgyfeirio eu cymryd;

Cyngor ar arfer gorau amddiffyn rhag twyll; neu

**Atgyfeiriad** at Adran Lywodraeth arall.

## 5.5 Sut y bydd bregusrwydd yn cael ei asesu?

Bydd bregusrwydd unigolyn yn cael ei ystyried drwy gydol y broses o fabwysiadu achos, asesu achos a chylch oes ymchwiliad, gan gynnwys penderfyniadau i ddilyn canlyniad cyfiawnder troseddol neu sifil.

Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn cynnal asesiadau bregusrwydd ar ddechrau pob ymchwiliad. Bydd hyn yn adolygu unrhyw dystiolaeth o fregusrwydd ariannol, cymdeithasol neu bersonol. Bydd yr asesiad yn pennu'r ffordd orau o ymgysylltu â'r person a bydd yn effeithio ar gamau gorfodi dilynol. Bydd bregusrwydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd wrth i achos fynd yn ei flaen a bydd yr asesiad bregusrwydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae gan y PSFA strategaeth ar gyfer delio ag unigolion bregus. Bydd gan staff fynediad at yr un hyfforddiant **Swyddogaeth Rheoli Dyled y Llywodraeth (GDMF)** â phob adran o'r llywodraeth ac ALB's, gan sicrhau bod staff wedi'u harfogi i ddelio â chwsmeriaid sy'n agored i niwed. Bydd y PSFA yn glynu wrth arfer gorau trawslywodraethol wrth nodi, asesu a rheoli unigolion agored i niwed ac yn cyd-fynd â safonau llywodraeth presennol, gan gynnwys offer fel **Pecyn Cymorth Agoredrwydd GDMF a'r Pecyn Cymorth Cam-drin Economaidd**, a ddatblygwyd ill dau ochr yn ochr â'r sector cyngor ar ddyledion a llywodraeth leol**.**
Mae'r cynhyrchion hyn yn sicrhau bod staff wedi'u harfogi i ddelio â sefyllfaoedd heriol yn y ffordd fwyaf priodol.

Er y bydd y PSFA yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael iddo i adnabod unigolion sy'n agored i niwed, efallai na fydd unigolyn yn gwybod eu bod dan ymchwiliad. Yn aml bydd angen cynnal y sefyllfa hon er mwyn, er enghraifft, atal cuddio neu ddinistrio tystiolaeth. Ar ba gam bynnag y daw unigolyn yn ymwybodol ei fod dan ymchwiliad gan y PSFA, byddant yn cael eu gwahodd i gyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud â'u bregusrwydd, os yw'n berthnasol, gan gynnwys unrhyw anghenion cymhleth neu gymorth ychwanegol sydd ei angen. Bydd y PSFA yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer derbyn datgeliadau (gan gynnwys trwy drydydd partïon).

Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn cael eu hyfforddi i adnabod 'arwyddion' sy'n dangos y gallai fod angen cymorth ar unigolion, gan gynnwys:

**ffactorau unigol**: er enghraifft, sôn am salwch, anabledd neu nam wrth fynd

heibio neu gyfeirio ato, cyswllt â'r sector iechyd neu'r sector gofal cymdeithasol, cyfeirio at dderbyn budd-daliadau penodol;

**arwyddion ymddygiadol**: er enghraifft, arwyddion o bryder, rhwystredigaeth, neu ddryswch, ceisiadau i ailadrodd gwybodaeth

**amgylchiadau ehangach**: er enghraifft, digwyddiadau bywyd (megis amser yn yr ysbyty, profedigaeth, sioc incwm), sefyllfaoedd tai ansefydlog, arwyddion o gam-drin corfforol, geiriol, meddyliol neu economaidd. Am ragor o wybodaeth ynghylch cam-drin economaidd gweler Pecyn Cymorth Cam-drin Economaidd y Sector Cyhoeddus GDMF. neu

**camau gweithredu sefydliadol**: cyfeirio gan y cwsmer at bethau sydd wedi'u gwneud neu heb eu gwneud sydd wedi achosi anhawster.

**Mae Adran 16.2** y Cod hwn yn nodi manylion ychwanegol sy'n benodol i fynd i'r afael â bregusrwydd yn ystod y broses o adennill dyledion.

# 5.6 Bregusrwydd mewn cyfweleion

- Gall Ymchwilwyr Awdurdodedig PSFA gynnal cyfweliadau ymchwiliol â phobl sy'n cael eu hamau o dwyll. Gall y rhain fod yn gyfweliadau gwirfoddol neu'n gyfweliadau dan rybudd. Mae Cod Ymarfer C PACE yn nodi diffiniad o 'berson agored i niwed' at ddibenion gweithgareddau o'r fath ac yn darparu canllawiau ar ddiogelu hawliau, teilyngdod a lles y bobl hynny. Darperir y diffiniadau isod. Bydd y PSFA yn dilyn y dull hwn yn yr amgylchiadau lle mae'n briodol gwneud hynny.

- https://www.gov.uk/government/publications/pace-code-c-2019

  - mae ‘agored i niwed’ yn berthnasol i unrhyw berson sydd, oherwydd cyflwr iechyd meddwl neu anhwylder meddwl.
  - Gall person fod yn agored i niwed o ganlyniad i gael cyflwr iechyd meddwl neu anhwylder meddwl. Yn yr un modd, dim ond oherwydd nad oes gan unigolyn, neu nad yw'n hysbys bod ganddo, unrhyw gyflwr neu anhwylder o'r fath, nid yw'n golygu nad yw'n agored i niwed at ddibenion y Cod hwn. Felly mae'n bwysig bod swyddog y ddalfa yn achos person sydd wedi'i gadw neu'r swyddog sy'n ymchwilio i'r drosedd yn achos person nad yw wedi'i arestio na'i gadw, fel y bo'n briodol, yn ystyried fesul achos a allai unrhyw un o'r ffactorau a ddisgrifir ym mharagraff 1.13(d) fod yn berthnasol i'r person dan sylw. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r swyddog ystyried amgylchiadau penodol yr unigolyn a sut y gallai natur yr ymchwiliad effeithio arno a chofio y bydd angen oedolyn priodol ar bobl ifanc, yn rhinwedd eu hoedran, bob amser.

# 6. Pwerau Gwybodaeth

- Mae Pennod 2 o'r Ddeddf yn amlinellu'r wybodaeth y gall y PSFA ei chasglu, ei chael a'i rhannu. Mae hefyd yn nodi cyfres o ofynion i unigolion eu dilyn. Os nad yw unigolion sy'n ddarostyngedig i'r pwerau o fewn Pennod 2 yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, yna gellir rhoi cosb am beidio â chydymffurfio.

# 7. Cosbau am Dwyll

- Bydd y PSFA yn trin pob achos o dwyll a amheuir yn ôl ei rinweddau ei hun, gan asesu'r ffeithiau i benderfynu ar ganlyniad sy'n deg, yn gymesur ac yn gorfodi'r gyfraith orau.

## 7.1 Penderfynu a yw achos yn bodloni'r safon prawf sifil

- Os caiff achos ei fabwysiadu, bydd y PSFA yn ei asesu a'i weithredu. Bydd pob ymchwiliad yn dechrau â'r dybiaeth y gallent gael canlyniad cyfiawnder troseddol. Bydd unrhyw achos sy'n parhau i fod yn achos troseddol yn cael ei ddatblygu i safon prawf troseddol. Gallai'r PSFA ymchwilio i'r troseddau hyn neu droseddau eraill o dan y Ddeddf Twyll â'r bwriad o geisio erlyniad troseddol. Er mwyn profi twyll i safon droseddol mae angen gradd uchel o brawf, fel bod gweithred neu hepgoriad yn cael ei brofi 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'.
- Mae'r PSFA yn un o nifer o adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth sy'n rhoi cosbau ariannol i'r safon sifil.
- Gallai'r PSFA benderfynu ceisio erlyniad neu osod cosb sifil, ond ni all wneud y ddau. Gellir rhoi cosbau sifil lle na ellir profi achos 'y tu hwnt i amheuaeth resymol' ond yn hytrach ei fod yn cyrraedd y safon prawf sifil, hynny yw, 'yn ôl yr hyn sy'n debygol' mae'n fwy tebygol na pheidio bod digwyddiad wedi digwydd. Cyfrifoldeb y Swyddog Awdurdodedig yw datblygu tystiolaeth sy'n bodloni'r safon brawf sifil er mwyn rhoi cosb.
- Profir y safon brawf sifil drwy asesu'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymchwiliad. Mae hon yn broses barhaus. Mae pob achos yn wahanol, ac nid oes 'prawf safonol'. Mae asesiad o a yw achos yn bodloni'r safon brawf sifil ofynnol yn cael ei lywio gan brofiad proffesiynol, arbenigedd, barn a gwrthrychedd ymchwilydd, yn seiliedig ar y gyfraith, a fydd yn cael eu profi gan uwch swyddogion a chynghorwyr cyfreithiol.
- Ni fydd achos sy'n bodloni'r safon brawf ofynnol yn arwain at gamau gweithredu ar unwaith nac yn awtomatig. Gellir ystyried ffactorau eraill wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, gan gynnwys budd y cyhoedd, pa mor agored i niwed mae'r person, a

gofynion adnoddau.

- Bydd y PSFA yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol isod wrth asesu safon y prawf:

    bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei ffeithiau ei hun ac ar ei

    rinweddau ei hun; mae'n rhaid i'r ymchwiliad a'r ymchwilwyr fod yn

    deg ac yn wrthrychol, heb

    gael eu dylanwadu gan safbwyntiau personol nac ystyriaethau allanol, ac yn deg yn y dull o ymdrin â phob achos;

    Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn ceisio cyngor yn ôl yr angen gan arbenigwyr pwnc, cynghorwyr cyfreithiol, ac arbenigwyr i sicrhau eu bod yn deall y dystiolaeth, ac yn siŵr bod y safon sifil ofynnol o brawf wedi'i bodloni;

    Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn amddiffyn hawliau unrhyw un sy'n ymwneud ag achos; Mae hyn yn cynnwys hawl person i beidio â'i argyhuddo ei hun.

- Wrth asesu tystiolaeth i benderfynu a yw'r safon sifil wedi'i bodloni, bydd y PSFA yn ystyried nifer o ffactorau penodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

    gryfder a gallu perswadio'r dystiolaeth;

    a yw holl elfennau'r drosedd yn bresennol;

    hygrededd tystion;

    a yw'r dystiolaeth yn gyfreithiol ganiataol ac yn berthnasol i'r mater;

    cymwysterau, methodoleg a dibynadwyedd tystion arbenigol.

## 7.2 Sefydlu'r golled neu'r budd

- Gan fod swm cosb am dwyll yn cael ei bennu gan y golled i'r awdurdod cyhoeddus neu'r budd a enillwyd gan y twyllwr, bydd y PSFA yn sefydlu'r swm hwn (y gellir ei amcangyfrif) cyn dechrau cyfrifo cosb. Mae'n rhaid i unrhyw amcangyfrif a gynhyrchir gan y PSFA fod yn rhesymol, yn gymesur, a chael ei gaffael o sail dystiolaethol gadarn.
- Mae sawl dull y gellir sefydlu swm drwyddynt, gan gynnwys:
    - o **yn wirfoddol**, trwy dderbyn penderfyniad y PSFA ar swm;
    - o trwy gytundeb setliad neu ddatrys anghydfod, lle cytunir ar swm;
    - o trwy **achos** ansolfedd;

- trwy ddwyn achos neu barhau **ag achos mewn llys neu dribiwnlys** i sefydlu swm;
- ymhellach i achosion a gychwynnwyd gan eraill, lle mae swm wedi'i sefydlu.

- Mewn unrhyw drafodaeth neu achos i sefydlu swm, mae'r PSFA yn gweithredu ar ran yr awdurdod cyhoeddus sydd wedi cael ei dwyllo.

# 7.3 Sut y cyfrifir lefelau cosbau twyll

- Pennir cosbau am dwyll trwy gyfeirio at y golled ariannol a ddioddefwyd gan yr awdurdod cyhoeddus neu'r budd a enillwyd gan y person neu'r personau sy'n cyflawni neu sy'n ymwneud â'r drosedd twyll **(gweler adran 8)**. Y gosb uchaf a ganiateir am drosedd twyll yw 100% o werth y golled a achoswyd i awdurdod cyhoeddus neu, os yw'n uwch, y **budd** a enillwyd gan y person, o ganlyniad i'r twyll dan sylw. Gall cosb fod yn unrhyw swm hyd at ac yn cynnwys y
ganran honno. Mae rhagor o wybodaeth am sut y pennir lefel y gosb wedi'i hamlinellu isod. Enghraifft o'r olaf yw llog a gronnwyd o arian a gafwyd yn dwyllodrus gan awdurdod cyhoeddus sydd wedi'i fuddsoddi ers hynny. Mae'r 'llog' hwn yn wahanol i'r llog a fydd yn cael ei gymhwyso gan y PSFA, fel y nodir yn adran 13.3 isod, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, llog a gymhwysir i daliadau hwyr.

- Gan fod y PSFA yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o fathau o dwyll a gyflawnir yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, bydd pob achos yn wahanol. Felly, bydd pob cosb a osodir yn cael ei theilwra i'r achos a bydd PSFA yn ceisio gosod lefel gosb sy'n ymateb rhesymol a chymesur i amgylchiadau'r achos. Bydd y ffordd y cyfrifir cosb yr un fath ar gyfer pob cosb a osodir.

- Yn y Cod hwn:
  - **Mae 'rhesymol'** yn golygu y byddai person rhesymol cyffredin yn ystyried bod y gosb arfaethedig yn briodol i'r drosedd;
  - **Mae 'cymesur'** yn golygu bod perthynas rhwng gwerth y gosb arfaethedig ac asesiad cyfannol o'r holl ffactorau eraill sy'n bresennol yn yr achos. Nid yw'n golygu cyfran o werth y swm a dwyllwyd.

- Bydd lefel y gosb yn cael ei phenderfynu trwy gyfeirio at amrywiaeth o ffactorau a welwyd yn yr achos, gan gynnwys
  - Cyfanswm y golled;
  - Hyd y drosedd;
  - Yr effaith ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys targedu cyllid brys;
  - Effaith ar ffrydiau ariannu;

- Ymddygiad y troseddwr, gan gynnwys galluogi eraill i gyflawni twyll a

dal swydd o ymddiriedaeth;

- o Unrhyw ffactor perthnasol arall, gan gynnwys ffactorau lliniaru a gwaethygu.

- Bydd y ffactorau hyn yn cael eu pwysoli i amrediadau isel, canolig ac uchel yn dibynnu ar y ffeithiau, a all arwain at gosb is neu uwch. Bydd y PSFA yn cymryd safbwynt cytbwys i benderfynu ar safbwynt ar yr achos yn gyffredinol.

- Darperir enghraifft isod o sut y gellir asesu un o'r ffactorau uchod. Bydd canllawiau ychwanegol yn cael eu datblygu i gefnogi Swyddogion Awdurdodedig yn eu hasesiad o lefel gosb resymol a chymesur. **Dim ond dangosol yw hyn a bydd yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.**

| **Ffactorau i'w hystyried wrth bennu lefel y gosb** | **Cosb 'isel' 0-25%** | **Cosb 'ganolig' 25- 50%** | **Cosb 'uchel' 50- 75%** | **Cosb ‘uchaf’ 75%- 100%** |
|---|---|---|---|---|
| ***2. Asesiad o’r drosedd (hyd y drosedd):***<br><br>*am ba hyd y parhaodd y drosedd? Ai ymosodiad untro ydoedd ar arian cyhoeddus neu a ddigwyddodd ymosodiadau lluosog?* | E.e. grant neu fenthyciad untro a gymerwyd gan unigolyn | E.e. twyll caffael untro, chwyddo anfonebau gan unigolyn/cwmni am gyfnod byr | E.e. twyll lluosog e.e. yn erbyn y GIG am gyfnod hir o amser | E.e. nifer o droseddau cymhleth blaenorol am dwyll, tystiolaeth sylweddol o fwriad parhaus i dwyllo nifer o sefydliadau sector cyhoeddus |

- Unwaith y bydd yr holl ffactorau wedi'u hasesu, bydd Swyddogion Awdurdodedig yn nodi'r categori cosb cyffredinol. Er enghraifft, os yw achos wedi sgorio 6 gradd 'uchaf', 1 gradd 'uchel' a 0 gradd 'canolig', gellid ei gategoreiddio fel un addas i dderbyn cosb uchaf (75-100% o'r twyll). Ond os yw achos wedi sgorio 2 gradd isel, 4 gradd ganolig ac 1 gradd uchel, gellir ei ddosbarthu'n ganolig. Bydd achosion nad oes ganddynt gategori cyffredinol hawdd ei adnabod yn cael eu cyflwyno i dîm Uwch Arweinyddiaeth yr Uned Gorfodi i'w trafod a chael canllawiau ychwanegol.

## 7.4 Hysbysiadau o fwriad

- Cyn gosod cosb ariannol ar berson am dwyll, bydd y PSFA yn hysbysu'r person o'i fwriad i wneud hynny drwy **'hysbysiad o fwriad'** ysgrifenedig (gweler **adran 59** y Ddeddf) a fydd yn:
    - o egluro'r **rhesymau** am osod y gosb;
    - o nodi **swm y gosb** a sut y cafodd ei chyfrifo; ac
    - o egluro bod gan y person hawl i wneud **sylwadau**, a nodi faint o amser sydd ganddo i wneud hynny.
- Bydd yr hysbysiad yn egluro'r rhesymau dros y gosb ariannol drwy grynhoi'r achos yn ddigon manwl i egluro pam mae cosb yn briodol a chaniatáu i'r person wneud sylwadau ystyrlon. Y cyfnod statudol lleiaf y gellir gwneud sylwadau ynddo yw 28 diwrnod ond gall y PSFA ganiatáu mwy o amser mewn rhai amgylchiadau.

# 8. Sylwadau ar gyfer cosbau sifil twyll

## 8.1 Hawliau gweithdrefnol

- **Mae Adran 57** o **Ddeddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) 2025** yn creu hawliau gweithdrefnol i unrhyw berson y gosodir cosb arno. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i wneud sylwadau i'r PSFA cyn gosod cosb.

- Gall person neu sefydliad wneud sylwadau ynghylch **unrhyw faterion perthnasol** cyn gosod cosb. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, materion cyfreithiol, ffeithiau'r achos, dehongli'r ffeithiau, sut mae'r Uned Gorfodi wedi dilyn ei phrosesau, ac a yw'r gosb yn rhesymol ac yn gymesur.

- Gallai'r PSFA ystyried ond anwybyddu sylwadau sy'n amherthnasol. Os anwybyddir sylwadau, bydd y PSFA yn egluro pam yn yr ymateb a ddychwelir i'r unigolyn neu'r busnes o fewn 5 diwrnod gwaith o'r dyddiad y derbynnir y sylwadau.

- Mae'n rhaid i sylwadau fod yn ysgrifenedig a dylent geisio crynhoi'r holl bwyntiau y mae'r person yn dymuno iddynt gael eu hystyried, egluro pam mae'r pwyntiau hyn yn berthnasol a sut mae'r person yn disgwyl i'r pwyntiau hyn effeithio ar benderfyniad achos neu lefel y gosb. Dylai sylwadau hefyd gynnwys tystiolaeth ar gyfer unrhyw honiadau ffeithiol a darparu copïau o

ddogfennau ategol yn ôl yr angen,

gyda'r adrannau perthnasol wedi'u hamlygu yn ôl yr angen. Mae'n rhaid gwneud sylwadau drwy e-bost i enforcementinvestigations@cabinetoffice.gov.uk

- Ni chaniateir sylwadau wyneb yn wyneb fel arfer ond gellir eu hystyried. Penderfyniad llwyr y PSFA yw cytuno i sylwadau wyneb yn wyneb ai peidio. Os yw parti yn teimlo eu bod dan anfantais oherwydd na allant wneud sylwadau wyneb yn wyneb, gallant gyfleu hyn i'r Uned Orfodi, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau ac ystyriaethau ynghylch bregusrwydd fel y nodir yn adrannau 5.5 a 5.6. Bydd y PSFA yn dogfennu unrhyw sylwadau wyneb yn wyneb, a all gynnwys recordio unrhyw sgwrs, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gytuno bod y cofnod yn gywir ac yn adlewyrchu ei fwriadau cyn eu derbyn.

- Gall y person a gosbir neu gynrychiolydd neu asiant wneud sylwadau. Mae angen tystiolaeth ysgrifenedig bod cynrychiolydd neu asiant wedi'i benodi'n briodol cyn cyfathrebu â nhw ynghylch materion y person. Ni fydd y PSFA fel arfer yn ystyried sylwadau gan drydydd parti oni bai eu bod yn rhan o'r sylwadau a wneir gan y person a gosbir neu ei asiant neu berson priodol yn achos unigolyn agored i niwed. Bydd bregusrwydd unigol yn cael ei ystyried fesul achos yn unol â dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn sicrhau bod y PSFA yn ystyried dim ond sylwadau y mae'r person neu'r sefydliad sy'n wynebu'r gosb eisiau iddynt gael eu hystyried.

- Os gwneir sylwadau, bydd yr Uned Orfodi yn eu hystyried ac yn adolygu'r asesiad achos a lefel y gosb ariannol yng ngoleuni hynny. Mae canlyniadau posibl yn cynnwys:

    - cadarnhau’r penderfyniad i osod cosb;
    - gosod cosb ond newid swm y gosb arfaethedig;
    - penderfynu peidio â gosod cosb.

- Bydd y PSFA yn ysgrifennu at y person neu ei gynrychiolydd ag asesiad terfynol, gan ystyried y sylwadau.

- Os yw'r asesiad yn golygu y bydd cosb yn dal i gael ei gosod, bydd y llythyr penderfyniad yn cynnwys cyngor ar hawl y person i geisio adolygiad gweinyddol. Os na wneir unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod penodedig, caiff y gosb ei chwblhau trwy gyhoeddi hysbysiad penderfyniad cosb. Os na ofynnir am adolygiad mewnol ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn yn ystod y cyfnod penodedig, yna daw'r gosb yn daladwy fel y nodir yn yr hysbysiad cosb terfynol.

## 8.2 Cyfnodau amser ar gyfer sylwadau

- Mae gan dderbynnydd o leiaf 28 diwrnod calendr i wneud sylwadau ysgrifenedig gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad. Fel arfer, ni fydd y PSFA yn derbyn sylwadau hwyr. Gall unigolion neu eu cynrychiolwyr ofyn am estyniad ac mae'n rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r cais hwnnw.

- Fel arfer, bydd y PSFA yn ystyried ac yn ymateb i sylwadau ar ôl dyddiad olaf y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau. Fel arfer, bydd yn anelu at wneud hyn o fewn 28 diwrnod calendr, fodd bynnag, gellir ymestyn y cyfnod os oes angen er mwyn sicrhau asesiad teg o'r sylwadau. Bydd y PSFA yn hysbysu'r person am unrhyw estyniad a bydd yn ymateb cyn gynted ag y bo modd.

- Bydd y PSFA yn sicrhau bod yr amserlenni'n gymesur ag amgylchiadau'r achos unigol ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi digon o amser i unigolyn neu fusnes wneud sylwadau ac atal twyllwyr rhag ymestyn a rhwystro ymchwiliadau'n fwriadol.

- Fel arfer, ni fydd y PSFA yn derbyn sylwadau hwyr. Fodd bynnag, gallai'r PSFA dderbyn sylwadau hwyr lle gall unigolyn arddangos 'achos da' dros yr oedi. Mae'r dull hwn yn rhoi'r hyblygrwydd gweithredol angenrheidiol ac yn sicrhau bod unigolion agored i niwed yn cael eu diogelu'n ddigonol, heb newid na thanseilio'r hawliau statudol sylfaenol sy'n ymwneud â'r cyfnodau amser ar gyfer sylwadau. Mater i'r PSFA yw penderfynu a yw rheswm y mae person yn ei ddarparu yn gyfystyr ag achos da ac a ddylid derbyn y sylwadau.

## 8.3 Hysbysiadau penderfyniad cosb

- Os na wneir unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod lleiaf o 28 diwrnod yn dilyn hysbysiad o fwriad, cyhoeddir hysbysiad penderfyniad cosb. Bydd hyn yn:
    - o hysbysu'r derbynnydd y bydd cosb yn cael ei gosod;
    - o cadarnhau swm y gosb;
    - o egluro'r rhesymau dros y swm hwnnw o gosb; ac
    - o egluro y gall y derbynnydd wneud cais am adolygiad mewnol o'r penderfyniad o fewn 28 diwrnod gan ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.
- Os gofynnir am adolygiad mewnol o'r penderfyniad, ni chaniateir gosod y gosb nes bod adolygiad wedi'i gynnal. Os na ofynnir am adolygiad o'r fath o fewn y cyfnod penodedig, gellir gosod y gosb a

daw'n daladwy o fewn yr amserlen a bennir yn yr hysbysiad cosb terfynol. **Gweler adran 9** o'r Cod hwn ar sut i ofyn am adolygiad mewnol.

# 9. Adolygiadau Mewnol o benderfyniadau cosb sifil twyll

## 9.1 Proses

- Dyma'r llinell gyntaf o adolygiad yn erbyn cosb sifil ar ôl i sylwadau gael eu gwneud. Er mwyn cael mynediad at yr hawl apelio ddiweddarach i'r llys neu'r tribiwnlys priodol, mae'n rhaid i'r person gael mynediad at yr hawl adolygu hon yn gyntaf.
- Cynhelir yr adolygiad mewnol gan Swyddog Awdurdodedig o radd uwch na'r Swyddog Awdurdodedig a wnaeth y penderfyniad, neu gan y Gweinidog yn bersonol[1]. Ni fydd y Gweinidog fel arfer yn cynnal adolygiadau, ond fel arfer bydd yn dirprwyo'r holl adolygiadau i Swyddogion Awdurdodedig o dan Egwyddor "Carltona".
  Fodd bynnag, os (er enghraifft) oes budd cyhoeddus i'r Gweinidog gynnal adolygiad yn bersonol, mae'r Ddeddf yn eu galluogi i wneud hynny. Penderfyniad y Gweinidog yw a ydynt yn cynnal adolygiad yn bersonol ai peidio.

Nid ailymchwiliad i'r achos yw'r adolygiad. Ei bwrpas yw asesu a oedd y penderfyniad i osod cosb yn rhesymol, yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd, gan gynnwys unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

- Mae gan berson 28 diwrnod i ofyn am adolygiad, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfyniad. Gallant ofyn am estyniad i'r amserlen mewn amgylchiadau eithriadol, a bydd y PSFA yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.
- Mae'n rhaid i'r cais gynnwys:
  - o datganiad bod y person yn dymuno defnyddio ei hawl i geisio adolygiad gweinyddol; a
  - o chrynodeb o'r rhesymau pam mae'n ceisio'r adolygiad.

  Fel arfer, ni fydd yr adolygiad yn ffordd o gyflwyno deunydd newydd, ac nid oes angen unrhyw ddeunydd ychwanegol gan y person. Mae'n adolygu'r penderfyniadau y mae'r PSFA wedi'u gwneud yn seiliedig ar y deunydd a

ddefnyddiwyd i asesu'r achos, ar ôl i'r person gael cyfle i gyflwyno unrhyw ddeunydd y mae'n dymuno ei gyflwyno ar y cam sylwadau

[1] Mae Egwyddor Carltona (a osodwyd yn achos Carltona v Y Comisiynydd Gwaith [1943] 2 All ER 560) yn cydnabod na all Gweinidog Gwladol gyflawni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a roddir iddo'n bersonol ac, wrth ddirprwyo i weision sifil, fod gweithredoedd y gwas sifil fel pe baent wedi'u gwneud gan y Gweinidog.

## 9.2 Sut y cynhelir adolygiadau mewnol

- Cynhelir adolygiadau mewnol gan Swyddog Awdurdodedig sydd â swydd uwch na'r Swyddog Awdurdodedig a gyhoeddodd yr hysbysiad cosb. Bydd gan yr uwch Swyddog Awdurdodedig fynediad at yr holl ddeunydd a ddefnyddiwyd i ymchwilio i'r achos a phennu'r gosb. Efallai y bydd angen eglurhad ar yr uwch Swyddog Awdurdodedig ar ddeunyddiau neu wybodaeth sy'n bodoli eisoes sy'n gysylltiedig â'r achos.

- Bydd y PSFA yn anelu at gwblhau'r rhan fwyaf o adolygiadau o fewn 2 fis. Fodd bynnag, gellir ymestyn y cyfnod hwn os oes angen.

- Ar ôl adolygu'r achos, bydd yr uwch Swyddog Awdurdodedig yn gwneud penderfyniad. Gallai hyn olygu:

    - o mae'r penderfyniad i osod y gosb a'i swm yn cael ei gadarnhau;
    - o mae'r penderfyniad i osod y gosb yn cael ei gadarnhau, ond bod swm gwahanol yn cael ei roi yn ei le; neu
    - o mae'r penderfyniad i osod y gosb yn cael ei ganslo.

- Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu yn ysgrifenedig i'r person. Os caiff y gosb ei chynnal, ar y swm gwreiddiol neu swm gwahanol, **caiff y gosb ei therfynu a bydd yn daladwy o fewn yr amserlen benodedig.**

# 10. Apeliadau am Gosbau Twyll

## 10.1 Sut i apelio yn erbyn hysbysiad cosb

- Unwaith y bydd adolygiad gweinyddol wedi dod i ben, gellir apelio yn erbyn y gosb i'r Tribiwnlysoedd. Fel arfer, mae'n rhaid gwneud apêl yn ysgrifenedig a chael ei derbyn gan y llys priodol neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o fewn 28 diwrnod fan bellaf ar ôl rhoi hysbysiad cosb, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Gweinidog yn cydymffurfio ag adran 59(3) y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys yn cadw ei hawl bresennol i ymestyn yr amserlen hon.

- Mae Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys, fel y'u diwygiwyd yn dilyn pasio'r

Ddeddf hon, yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid ei ddatgan yn yr hysbysiad apêl, a'r hyn y mae'n rhaid ei ddarparu gyda'r hysbysiad apêl:

https://www.gov.uk/government/publications/general-regulatory-chamber-t ribunal-procedure-rules

- Nid yw'r PSFA yn rheoli proses yr apêl, sy'n fater i'r Tribiwnlys.

- Gall y llys neu'r Tribiwnlys priodol:

  - o gynnal yr hysbysiad cosb;
  - o dirymu'r hysbysiad cosb;
  - o amrywio swm yr hysbysiad cosb.

# 11. Pryd na ellir cymhwyso cosbau am dwyll

## 11.1 Proses

- **Ni fydd** cosbau'n cael eu rhoi yn yr amgylchiadau isod, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

  - o mewn ymateb i achosion o wallau gweinyddol - er enghraifft lle anfonir taliad yn anghywir oherwydd gwall system neu wall dynol o fewn awdurdod cyhoeddus;
  - o mewn ymateb i achosion o wallau unigol - er enghraifft lle mae unigolyn wedi gwneud camgymeriad gonest wrth lenwi ffurflen neu gais am grant yr oedd ganddo hawl iddo;
  - o fel dewis arall yn lle erlyniad troseddol - sy'n golygu na all person osgoi cael ei erlyn drwy gytuno i dderbyn cosb. Ni all y PSFA ddefnyddio'r bygythiad o erlyniad i roi pwysau ar dderbyn cosb
  - o mewn achosion lle mae Swyddog Awdurdodedig yn penderfynu nad yw'n briodol rhoi cosb am dwyll neu ddiffyg cydymffurfio yn seiliedig ar bob ffactor sy'n cyfrannu at achos unigol, gan gynnwys asesiad parhaus o fregusrwydd, ac yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

- Nid yw camgymeriad a wneir gan unrhyw awdurdod cyhoeddus o blaid unigolyn neu sefydliad yn rhoi'r hawl iddynt gadw unrhyw swm a dalwyd mewn camgymeriad. Dylent gymryd

  camau i unioni unrhyw gamgymeriad cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol ohono. Gellir hawlio unrhyw swm a dalwyd mewn camgymeriad yn ôl naill ai gan yr awdurdod cyhoeddus a wnaeth y camgymeriad neu gan y

PSFA sy'n gweithredu ar eu rhan, neu drwy ddulliau eraill.

# 12. Gostwng y Gosb.

## 12.1 Sut y bydd gostyngiadau cosbau yn cael eu cymhwyso

- Mae cydweithredu yn arwydd o ffydd dda ac yn gwneud gorfodi'r gyfraith yn symlach, yn haws, yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae canlyniad cydweithredu ag ymchwiliad a chyfaddef camwedd yn debygol o fod yn sylweddol well i'r unigolyn neu'r sefydliad na pheidio â gwneud hynny.

- Gall person sy'n cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad i'w ymddygiad twyllodrus dderbyn cosb is. Mae hyn yn gyfan gwbl o fewn disgresiwn y PSFA ac yn dibynnu ar holl amgylchiadau achos. Bydd penderfyniad i gynnig gostyngiad am gydweithrediad yn cael ei wneud ar ôl i'r PSFA benderfynu peidio â cheisio erlyniad troseddol, ond fel arall gellir ei wneud ar unrhyw gam o'r broses ymchwilio.

- Gellir gosod gostyngiadau cosb ar unrhyw lefel a byddant yn cael eu cymhwyso ar ôl cyfrifo cosb fel y nodir uchod, ond fel arfer ni fydd yn fwy na 50% o'r gosb a gyfrifwyd.

- Mae gostyngiad yn amodol ar i'r unigolyn neu'r busnes gwblhau'r camau canlynol:

  - **datgelu'n llawn** unrhyw weithgarwch twyllodrus yn erbyn y sector cyhoeddus;
  - **derbyn** y ffeithiau fel y'u cyflwynwyd;
  - **ad-dalu'r** symiau a dwyllwyd; a
  - **derbyn** cosb.

- Bydd yn ofynnol i'r person lofnodi tystysgrif datgeliad llawn yn ardystio ei fod wedi cwblhau'r broses hon yn llawn. Os canfyddir wedi hynny nad yw person wedi datgelu'n llawn yr holl weithgarwch twyllodrus, gellir defnyddio'r dystysgrif fel tystiolaeth mewn unrhyw ymchwiliad dilynol.

- Bydd y PSFA yn gofyn i berson sy'n cydweithredu ag ymchwiliad ddarparu gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar gyfer yr ymchwiliad. Rhoddir cyfnod rhesymol o amser i'r person ddarparu hyn a gwneir yr holl ddatgeliadau ar sail wirfoddol.

- Mae'r PSFA yn disgwyl i'r unigolyn neu'r busnes sicrhau bod unrhyw wybodaeth ac atebion a ddarperir yn gywir. Os ydynt ar unrhyw adeg yn ansicr ynghylch y broses neu'r hyn a ofynnir, yna gall yr unigolyn neu'r

sefydliad gysylltu â'r PSFA am arweiniad pellach. Mae'n bwysig bod yr holl ffeithiau a gwybodaeth berthnasol yn cael eu darparu ar gais i gynorthwyo'r PSFA wrth gwblhau'r ymchwiliad.

- Os bydd person sy'n cydweithredu yn tynnu cydweithrediad yn ôl ar unrhyw gam, gall y PSFA arfer ei ddisgresiwn ynghylch a ddylid rhoi unrhyw ostyngiad i unrhyw gosb ddilynol. Gall y PSFA ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir at ddibenion parhau â'r ymchwiliad.

# 13. Cosbau am ddiffyg cydymffurfio

## 13.1 Pryd y bydd cosbau am ddiffyg cydymffurfio yn cael eu cymhwyso

- Yn wahanol i gosbau am droseddau twyll, sy'n gysylltiedig â gwerth ariannol y twyll, mae cosbau am ddiffyg cydymffurfio â gofynion o dan **Benodau 2 a 4** y Ddeddf hon yn werthoedd ariannol sefydlog:
    - o diffyg cydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth a osodir o dan Bennod 2 neu 4: **cyfradd ddyddiol o £300**
    - o diffyg cydymffurfio ag unrhyw ofyniad arall a osodir o dan Bennod 2 neu 4: **dirwy sefydlog o £300**

## 13.2 Hawliau Gweithdrefnol

- o Ar gyfer cosbau sifil am ddiffyg cydymffurfio, mae'r un hawliau gweithdrefnol yn berthnasol ag a nodir yn **adrannau 9, 10 ac 11.**

## 13.3 Cyfrifo a chymhwyso llog i gosbau sifil

- Gellir cymhwyso llog os telir cosbau sifil yn hwyr, gan gynnwys cosbau am ddiffyg cydymffurfio â gofynion o dan **Benodau 2 a 4** y Ddeddf. Ni fydd adlog yn berthnasol. Ar ôl derbyn hysbysiad o fwriad a/neu hysbysiad cosb, bydd unigolion yn cael gwybod am gymhwyso cyfraddau llog am daliadau hwyr. Bydd llog yn cael ei gymhwyso o'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd hysbysiad cosb yn ddyledus i'w dalu.

- Codir llog yn ddyddiol. Y gyfradd llog am dalu'n hwyr sy'n berthnasol i ddiwrnod yn y cyfnod llog yw'r ganran y flwyddyn a geir drwy ychwanegu 2.5 at gyfradd Banc Lloegr sy'n berthnasol i'r diwrnod. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os yw cyfradd llog y Banc yn 3.5%, y llog a godir fydd 6%.

- Bydd y PSFA yn cynnwys mesurau diogelwch i sicrhau na chaniateir i log gronni i lefelau anghymesur a bod cosbau'n cael eu talu'n brydlon. Gall hyn gynnwys y pwerau ym **Mhennod 4** y Ddeddf i adennill dyledion.

## 13.4 Sut y byddwn yn cysylltu ag unigolion neu sefydliadau os byddwn yn rhoi cosb

- Mae'r PSFA yn gweithredu fel asiant i awdurdodau cyhoeddus eraill. Bydd y PSFA ddim ond yn anfon llythyrau at unigolion a sefydliadau i ofyn am ragor o wybodaeth, cymryd rhan mewn proses gyfreithiol, ac i gasglu arian sy'n ddyledus i Lywodraeth Ei Fawrhydi.

- Gellir dod o hyd i wybodaeth am ein cyswllt â chi ar wefan y PSFA. https://www.gov.uk/government/organisations/public-sector-fraud-authority . Bydd unrhyw un sy'n derbyn llythyr am gosb yn gallu gwirio ei ddilysrwydd. Dylai unigolion neu sefydliadau wirio a yw eu llythyr yn real gan ddefnyddio'r wybodaeth ar ein gwefan.

- Mae llythyrau ar gael mewn fformatau hygyrch. Os oes angen fformat amgen ar unigolyn oherwydd eu bod, er enghraifft, â nam ar eu golwg neu os oes ganddynt unrhyw gyflwr arall sy'n gwneud print safonol yn anodd, gallant anfon e-bost atom yn enforcementinvestigations@cabinetoffice.gov.uk ac amlinellu eu gofynion.

- Pan dderbynnir llythyr, dylai'r derbynnydd anfon e-bost at y cyfeiriad canlynol, enforcementinvestigations@cabinetoffice.gov.uk. Dylai pennawd pwnc y llythyr ddarllen fel eu henw a nodir ar y llythyr a ddilynir gan y cyfeirnod yng nghornel dde uchaf y llythyr. (Enghraifft o linell bwnc: Joe Bloggs 12346). Bydd y tîm yn cadarnhau derbyniad, ac yna byddant yn ymateb i'r e-bost.

# 14. Beth os yw unigolyn neu sefydliad yn credu bod gwall neu gamgymeriad

## 14.1 Mesurau diogelu

- Mae gan y PSFA fesurau diogelu a phrosesau cadarn ar waith i atal gwallau a chamgymeriadau. Os yw unigolyn neu sefydliad yn credu bod gwall neu gamgymeriad wedi'i wneud, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r PSFA ar unwaith yn ysgrifenedig, gan fanylu ar y gwall neu'r camgymeriad a darparu unrhyw dystiolaeth sy'n angenrheidiol i'n galluogi i gywiro'r sefyllfa.

- Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y mesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer y pŵer hwn i'w chael ym Mhennod 7 (Cosbau am Dwyll), Pennod 8 (Sylwadau ar gyfer cosbau sifil am dwyll), Pennod 9 (Adolygiadau mewnol o benderfyniadau cosbau sifil am dwyll) a Phennod 10 (Apeliadau am Gosbau Twyll).

## 14.2 Data - Sut i wneud cwyn

- Os yw unigolyn yn ystyried bod ei ddata personol wedi cael eu camddefnyddio neu eu cam-drin, gallant wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

| | |
|---|---|
| **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** | Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Swydd Caer<br>SK9 5AF<br><br>Teleffon: 0303 123 1113<br>E-bost:<br>icocasework@ico.org.uk |

| | |
|---|---|
| **Rheolydd data ar gyfer data personol** | Swyddfa'r Cabinet<br>1 Horse Guards Road<br>Llundain<br>SW1A 2HQ |

- Ni fydd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn amharu ar yr hawl i geisio iawn trwy'r llysoedd. Y rheolydd data ar gyfer data personol yw:

- Y manylion cyswllt ar gyfer y Swyddog Diogelu Data (DPO) yn Swyddfa'r Cabinet yw: dpo@cabinetoffice.gov.uk. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor annibynnol ac yn monitro defnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth bersonol.

# 15. Talu cosbau

## 15.1 Sut i dalu cosb

- Bydd manylion ynghylch sut i dalu cosb yn cael eu darparu i unigolyn mewn gohebiaeth a gyhoeddir gan y PSFA.

## 15.2 Talu costau adenilladwy a dynnwyd

- Mae'r Ddeddf yn galluogi'r PSFA i adennill costau a dynnwyd fel rhan o adennill dyledion, gan gynnwys adennill y gosb sifil a llog am dalu'n hwyr. Fel arfer, bydd y PSFA yn ceisio adennill costau rhesymol - gallai hyn gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu dyled drwy'r llysoedd, a gallai gynnwys costau rhesymol eraill. Gall y rhain fod yn ganlyniad i orchymyn costau a wneir gan lys. Ni fydd yn cynnwys costau rhedeg dyddiol y PSFA, gan gynnwys costau cynnal yr ymchwiliad.

- Bydd y PSFA yn ceisio sicrhau y telir unrhyw gostau rhesymol ar adeg briodol yn yr achos. Fel arfer, bydd hyn ar ddiwedd yr achos. Er mwyn sicrhau bod unigolyn neu sefydliad yn deall beth y gofynnir iddynt ei dalu a pham, bydd unrhyw alwad i dalu costau perthnasol yn cael ei gwneud ar wahân i unrhyw hysbysiad cosb neu ochr yn ochr ag unrhyw hysbysiad cosb, nid fel taliad cyfan.

- Fel gyda phob cosb a thaliad, bydd y PSFA yn ystyried pa mor agored i niwed mae'r unigolyn cyn ceisio adennill **(gweler adran 16.2).**

# 16. Cosbau heb eu talu

## 16.1 Cyfnodau Talu

- Mae gan unigolion a sefydliadau 28 diwrnod i gydymffurfio â hysbysiadau cosb am dwyll a diffyg cydymffurfio. Os yw'r unigolyn neu'r sefydliad yn gofyn am adolygiad a/neu'n gwneud apêl, fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau hyn, unwaith y bydd yr amserlenni hyn wedi mynd heibio, ac yn dibynnu ar y canlyniadau, mae'r taliad yn ddyledus.

- Mae cosbau sifil heb eu talu yn agored i gronni llog, fel y manylir yn **adran 13.3** y canllawiau hyn. Ni fydd cosbau sifil heb eu talu yn arwain at ddedfrydau o garchar. Os na wneir taliad, bydd y PSFA yn defnyddio ei phwerau adennill dyledion i adennill cosbau a llog heb eu talu, neu gymryd camau eraill i adennill dyledion.

- Lle na fydd cosb sifil wedi'i thalu, bydd y PSFA yn ystyried a fyddai adennill y ddyled yn arwain at galedi cyn cymryd camau gorfodi ychwanegol. At ddibenion y Cod hwn, mae caledi yn cyfeirio at gyflwr o ddioddefaint ariannol difrifol lle na all unigolyn neu fusnes dalu costau byw neu weithredu hanfodol, fel bwyd, ynni, neu dai oherwydd newid sylweddol, ac yn aml yn sydyn, mewn amgylchiadau. Diffinnir caledi gan anallu i dalu am yr hanfodion sylfaenol hyn. Bydd gofyn i unigolion neu fusnesau sy'n hawlio caledi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod pob llwybr ariannol hyfyw arall, fel defnyddio cynilion neu fenthyca cyfrifol, wedi'u defnyddio'n llwyr.

## 16.2 Sut y bydd dyledion cosb sifil yn cael eu hadennill

- Mae cosb sifil yn dod yn ddyled i'r llywodraeth unwaith:
  - o mae'r dyddiad cau ar gyfer talu wedi mynd heibio, a
  - o mae'r amser ar gyfer apelio yn erbyn y gosb wedi mynd heibio heb i apêl gael ei chyflwyno, neu
  - o mae apêl yn erbyn y gosb wedi'i phenderfynu'n derfynol.
- Yn yr amgylchiadau hyn, gall y PSFA ddefnyddio'r pwerau adennill dyledion ym Mhennod 4 o'r Ddeddf i adennill y ddyled. Y pwerau hyn yw:
  - o **Gorchmynion Didynnu o Enillion** (DEO) ar gyfer unigolion mewn cyflogaeth PAYE;
  - o **Bydd Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol** (DDO) yn cael eu rhoi i fanciau i adennill arian o gyfrifon banc.

  Gall DDOs fod naill ai'n:
  - o **Orchmynion Didynnu Uniongyrchol Cyfandaliad** (LSDDO) ar gyfer symiau penodol o gyfrifon banc;
  - o **Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol Rheolaidd** (RDDO) ar gyfer didyniadau rheolaidd o gyfrifon y person atebol.
  - o **Gorchymyn adennill** drwy'r llys sirol.
- Bydd y PSFA yn dewis y dull adennill sydd fwyaf priodol ym mhob achos a

cheisir ymdrechion i sicrhau ad-daliadau gwirfoddol cyn defnyddio'r pwerau adennill dyledion. Trwy gydol y broses adennill dyledion, bydd y PSFA yn darparu digon o gyfle i unigolion ymgymryd yn wirfoddol ag ad-daliadau fforddiadwy.

- Bydd y PSFA yn sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed neu'r rhai sydd mewn caledi yn cael eu diogelu fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn **adran 5.5 o'r canllawiau hyn**.

- Am ragor o wybodaeth ynghylch y broses adennill dyledion, gan gynnwys:
    - o hawliau i sylwadau, adolygiadau mewnol ac apeliadau
    - o mesurau diogelu, bregusrwydd ac ystyriaethau fforddiadwyedd

  cyfeiriwch at y canllawiau penodol ar adennill dyledion a gyhoeddir ar wahân.

## 16.3 Costau Ychwanegol

- Yn unol â dulliau presennol ar draws y llywodraeth, gall banc neu gyflogwr godi tâl ar unigolyn am gydymffurfio â gorchymyn adennill. Mae hyn i dalu costau gweinyddol rhesymol y banc neu'r cyflogwr. Bydd y symiau'n cael eu hamlinellu mewn rheoliadau a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y canllawiau adennill dyledion ar wahân.

# 17. Rheoli gordaliadau

## 17.1 Gordaliadau

- Mae mesurau diogelu a phrosesau cadarn ar waith i atal gordaliadau o gosbau sifil a dyledion sy'n ddyledus. Bydd pob taliad sy'n dod i mewn yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Fodd bynnag, os bydd gordaliad yn digwydd, caiff ei ganfod, ei asesu a'i gywiro. Mae'n rhaid i berson atebol hefyd hysbysu'r PSFA ei fod wedi gwneud gordaliad, a bydd y sefyllfa'n cael ei hasesu. Os yw person atebol wedi gwneud gordaliad, cysylltir ag ef/hi i gywiro'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

# 18. Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion

## 18.1 Sut y bydd data yn cael eu prosesu

- Mae'r PSFA yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018. Mae hon yn nodi'r egwyddorion ar gyfer cael, cofnodi, defnyddio a diogelu

gwybodaeth bersonol yn deg ac yn gyfreithlon. Mae'r ddeddf yn gweithio mewn dwy ffordd:

- mae'n rhoi hawliau penodol i unigolion.
- mae'n sicrhau bod y PSFA yn agored ynglŷn â sut mae gwybodaeth yn cael ei storio a'i defnyddio.

- Gellir dod o hyd i gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Uned Gorfodi'r PSFA yma. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y bydd yr Uned, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet, yn defnyddio data personol, a hawliau unigolyn mewn perthynas â'r data hynny.

## 18.2 Cwynion

- Mae gan Swyddfa'r Cabinet broses sefydledig sy'n galluogi unigolion sydd â chwyn am ymddygiad staff PSFA neu'r ffordd y maent yn cael eu trin i godi cwyn. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i wneud cwyn yma. Gellir gwneud cwyn gan ddefnyddio'r ffurflen gyswllt ar-lein neu drwy'r post gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddarperir. Mae'r hawl i wneud cwyn ar wahân i, ac nid yw'n effeithio ar, hawliau unigolyn neu sefydliad i roi sylwadau, adolygiad ac apêl mewn perthynas â chosbau sifil fel y'u nodir yn y Ddeddf ac a fanylir arnynt yn y Cod Ymarfer hwn.

- Os bydd achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn canlyniad gweithdrefnau cwynion Swyddfa'r Cabinet, gallant godi hyn gyda'u Haelod Seneddol. Yna gall yr Aelod Seneddol godi hyn gyda'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, sy'n ystyried cwynion lle mae rhywun yn credu bod anghyfiawnder neu galedi wedi digwydd oherwydd nad yw sefydliad wedi gweithredu'n briodol neu wedi rhoi gwasanaeth gwael a heb gywiro pethau. Mae gwefan yr Ombwdsmon yn esbonio sut y gellir cysylltu â nhw.

- Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer penodi Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i ddelio â chwynion difrifol mewn perthynas â defnydd PSFA o bwerau PACE. Bydd PSFA yn atgyfeirio eu hunain at SAYH os bydd digwyddiad difrifol yn ystod ymchwiliad. Mae SAYH yn diffinio digwyddiad difrifol fel rhywbeth sy'n achosi anaf difrifol neu farwolaeth i aelod o'r cyhoedd. Fodd bynnag, gall unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith o fewn cwmpas SAYH, neu aelodau o'r cyhoedd, wneud adroddiad drwy SAYH os oes ganddynt bryderon ynghylch ymddygiad ymchwilwyr. Gellir gwneud hyn yma.

# 19. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Cyrff hyd braich (ALBs)** | Categori penodol o gyrff cyhoeddus llywodraeth ganolog sy'n cael eu dosbarthu'n weinyddol gan Swyddfa'r Cabinet. Mae tri math o ALB: Asiantaeth weithredol, corff cyhoeddus anadrannol ac adran anweinidogol. |
| **Swyddog Awdurdodedig (AO)** | Unigolyn dynodedig o fewn y PSFA sydd â'r pŵer i gyflawni dyletswyddau penodol megis casglu gwybodaeth ac ymchwilio i dwyll |
| **Cosb Sifil** | Cosb ariannol a osodir yn weinyddol gan y llywodraeth neu awdurdod cyhoeddus, neu mewn achosion sifil gan lys, i gosbi camymddygiad neu fel iawndal am gamymddygiad. Nid yw cosb sifil yn arwain at nac yn dilyn euogfarn am drosedd. |
| **Safon Prawf Sifil** | Safon prawf a ddefnyddir mewn achosion sifil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r dystiolaeth ddangos bod rhywbeth, yn ôl yr hyn sy'n debygol, yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd. |
| **Adennill Dyled** | Y broses o fynd ar drywydd taliadau dyledion sy'n ddyledus gan unigolion neu fusnesau. |
| **Gorchymyn Didynnu o Enillion (DEO)** | Gorchymyn a ddefnyddir i adennill dyledion yn uniongyrchol o enillion unigolyn trwy eu cyflogwr. |
| **Gorchymyn Didynnu Uniongyrchol (DDO)** | Gorchymyn a ddefnyddir i adennill dyledion yn uniongyrchol o gyfrif banc unigolyn drwy eu banc |
| **Deddf Twyll 2006** | Deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr sy'n diffinio'r troseddau statudol o Dwyll. |

| | |
|---|---|
| **Personau Cyfreithiol a Naturiol** | O dan y ddeddfwriaeth hon mae 'person' yn berson cyfreithiol a naturiol ac felly'n cynnwys unigolion a busnesau. Mae person naturiol yn fod dynol unigol. Gall systemau cyfreithiol atodi hawliau a dyletswyddau i bersonau naturiol heb eu caniatâd. Mae person cyfreithiol yn endid sy'n cael ei drin fel person at ddibenion cyfreithiol. Gall personau cyfreithiol fod yn breifat, fel endid busnes neu sefydliad anllywodraethol, neu'n gyhoeddus, fel llywodraeth. |

| | |
|---|---|
| **Person Atebol** | Unigolyn neu endid y penderfynir ei fod yn gyfrifol am ddyled neu gosb, fel y rhai sy'n deillio o dwyll neu arian a hawliwyd yn anghywir. |
| **Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol Cyfandaliad (LSDDO)** | Math o Orchymyn Didynnu Uniongyrchol sy'n caniatáu didynnu swm penodol o gyfrif banc dyledwr. |
| **Gordaliad** | Swm o arian a dderbynnir gan berson neu endid sy'n fwy na'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. |
| **Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol Rheolaidd (RDDO)** | Math o Orchymyn Didynnu Uniongyrchol sy'n caniatáu didyniadau rheolaidd o gyfrif dyledwr i adennill dyledion. |
| **Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)** | Hawl gyfreithiol sy'n caniatáu i unigolyn ofyn i sefydliad am gopi o'u data personol sydd gan y sefydliad, gan gynnwys manylion ynghylch sut mae'r data hynny'n cael eu defnyddio ac â phwy maen nhw'n cael eu rhannu. |
| **Tribiwnlys** | Math o lys sydd â'r awdurdod i ddyfarnu anghydfodau cyfreithiol a gweinyddu cyfiawnder mewn meysydd penodol fel cyflogaeth, mewnfudo, a chosbau sifil. |
| **Deiliad Gwybodaeth** | Person neu sefydliad sy'n dal gwybodaeth sy'n berthnasol i symud ymchwiliad ymlaen. |
| **Hysbysiad gwybodaeth** | Hysbysiad sy'n gorfodi parti cyntaf a/neu drydydd parti i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad. |

| | |
|---|---|
| **Braint Proffesiynol Cyfreithiol** | Amddiffyniad a roddir i gyfathrebiadau cyfrinachol rhwng cynghorydd cyfreithiol a'i gleient. |
| **Awdurdod Cyhoeddus** | Corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. |

E03613722
978-1-5286-6546-9